



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB

Maer: Cyng Chris Jones

Dirprwy Faer: Cyng Laura Fielding

01248681697 Clerc y Dref: jayne@llanfairfechan.net

CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER 27^{ain} O ORFFENNAF 2022

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn unrhyw ymddiheuriadau (DLIL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol neu un sy'n peri rhagfarn yn ôl Rheoliadau 2012)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.

Yn bresennol:

Tîm Amddiffyn rhag Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Phennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth

5. Derbyn diweddariad ar ddatblygiad prosiect amddiffyn rhag llifogydd Llanfairfechan a Maes Parcio'r Promenâd
6. Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y 6^{ed} o Orffennaf 2022 a'r rhestr weithredu (DLIL Atodlen 12)
7. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo sesiynau prosiect cynllunio cymunedol pellach Kickstarter – caiff yr adroddiad ei gylchredeg
8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo calendr digwyddiadau cymunedol 2022/2023 – caiff yr adroddiad ei gylchredeg
9. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Prosiect Meinciau Cyhoeddus Cyngor Tref Llanfairfechan – caiff yr adroddiad ei gylchredeg
10. Derbyn ceisiadau grant ar gyfer Llanfest 2022
11. Trafod e-byst y Cynghorwyr Tref a thudalennau cyfryngau cymdeithasol
12. Derbyn a chymeradwyo taliadau presennol ar gyfer mis Gorffennaf a mis Awst 2022
 1. Menter Iaith i'w gadarnhau yn y cyfarfod
 2. Sgipiau Cymunedol CBSC Ffordd yr Orsaf £288.00
 3. Ffi Gwaith Cynnal a Chadw Arhosfan Bws CBSC £1000.00 2022/2023
 4. Lwfansau'r Cynghorwyr Tref 2022/2023 £150.00 x 13
 5. Trwydded Farchnad Tens mis Gorffennaf Kirsty Merrell Daily £21.00
 6. Adnewyddu aelodaeth SLCC £215.00
 7. Yswiriant Zurich 2022/23 (taliad ôl-ddyddiedig) £1290.78
 8. Castell Neidio Brighthouse Leisure (taliad ôl-ddyddiedig) £115.00
 9. Cacennau caffi Riverside (taliad ôl-ddyddiedig) £81.00

13. Trafod materion cynllunio

- 0/49837** Gelli Aur 3 Garth Wen Llanfairfechan LL33 0BB
0/49812 Plot 64 Cae America Llanfairfechan LL33 0SQ
0/49807 Bridge House Ffordd Penmaenmawr Llanfairfechan LL33 0RJ
0/49796 Flat Llawr Gwaelod rhif 7 Ffordd yr Orsaf Llanfairfechan LL33 0AL

14. Derbyn gohebiaeth
15. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd
16. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys

Ymuno dros Zoom

<https://us02web.zoom.us/j/82633895008?pwd=S2VnZ3htNVoreUJXdmIT09TeElzd09>

Rhif Adnabod: 826 3389 5008

Cyfrinair: 491380

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER 27^{AIN} O ORFFENNAF 2022

Yn bresennol: Cadeirydd: Maer Chris Jones; Dirprwy Gyng Laura Fielding; Cyng Nia Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Elgan Owen; Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg

1. Croeso gan gadeirydd y cyfarfod – Croesawyd pawb i'r cyfarfod.
2. Derbyn unrhyw ymddiheuriadau: Cyng Penny Andow; Cyng Leena Farhat; Cyng Pat Griffiths; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Claire Hughes Cyng Gareth Jones Penderfynwyd derbyn a nodi
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb (Datgelu diddordeb personol neu un sy'n peri rhagfarn yn ôl Rheoliadau 2012)
 - Cyng Christine Roberts Eitem 10 Cais Llanfest (ar y pwyllgor) Diddordeb Personol
 - Dirprwy Faer Laura Fielding Eitem 10 Cais Llanfest (ar y pwyllgor) Diddordeb Personol
 - Maer Chris Jones Eitem 12 cynllunio 0/49796 (ffrind i'r teulu) Diddordeb Personol
 - Cyng Nia Jones Eitem 12 cynllunio 0/49807 a 0/49796 (ffrind i'r teulu) Diddordeb PersonolPenderfynwyd derbyn a nodi
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd. Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd dau gynrychiolydd annibynnol o Bwyllgor Safonau Gwasanaethau Democrataidd CBS Conwy yn bresennol a bu iddynt egluro eu diben dros fynychu ac arsylwi Cynghorau Tref a Chymuned. Mae hyn yn rhan o raglen i fynychu pob Cyngor i helpu i rannu arfer da. Caiff cyfarfod adolygu ei gynnal er mwyn trafod unrhyw sylwadau. Penderfynwyd derbyn a nodi
5. Tîm Amddiffyn Rhag Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Phennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth – roedd y Cyngor Tref wedi gobeithio y buasai cynrychiolwyr o CBS Conwy yn y cyfarfod. Fodd bynnag, mae cyfarfod partneriaeth bellach wedi'i drefnu ac mae'r rheolwr tîm wedi cytuno i'w fynychu. Y Clerc i symud y dyddiad i Ddydd Llun 22^{ain} o Awst os yn bosibl gan na all llawer o'r Cynghorwyr Tref fynychu'r wythnos flaenorol. Nodwyd bod y Cynghorwyr Tref yn hynod o anhapus gyda'r sefyllfa ac yn poeni y bydd amserlen y gwaith yn cael ei gwthio'n ôl unwaith eto. Nid ydy'r arolwg trigolion wedi'i gynnal eto ac roedd y gwaith i fod i ddechrau ym mis Medi. Penderfynwyd derbyn a nodi
6. Derbyn a chymeradwyo cofnodion 6^{ed} o Orffennaf 2022 a'r rhestr weithredu (DLIL 1972 Atodlen 12)

Roedd y cofnodion wedi'u dosbarthu yn flaenorol a'u nodi wedi'u derbyn.

35.10 Pwll Padlo – mae'r broblem gyda'r paent glas wedi'i chyfeirio at CBS Conwy ac maent wedi bod mewn cysylltiad gyda'r achwynydd. Fodd bynnag, mae pryderon pellach am wyneb y pwll gan fod sôn ei fod yn llithrig. Y Clerc i anfon e-bost at CBS Conwy yn rhoi gwybod am hyn.

35.7 Cwrt MUGA – pryderon bod y byrddau pêl-fasged bellach wedi'u torri ac felly bydd angen gwneud mwy o waith. Mae'r tarmac mewn cyflwr gwael iawn a bydd angen ystyried hyn yn flaenoriaeth oherwydd dylai bod y cwrt o safon i breswylwyr a grwpiau lleol allu ei ddefnyddio.

35.5 Gwyllo Cyflymder – Y Clerc i baratoi rhestr o'r llefydd poblogaidd a'i hanfon drwy e-bost. Y nod ydy parhau i lansio ym mis Medi gyda'r gobaith y daw mwy o wirfoddolwyr ymlaen unwaith bydd ar fynd.

35.12 TG Swyddfa a GDPR – Mae'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda BT ac mae problem wedi dod i'r amlwg wrth osod y llinell ffibr fel bod modd mudo'r rhif. Mae BT yn gweithio ar y sefyllfa ac yn y cyfamser ni fydd unrhyw ffi ar gyfer y gwasanaeth ffibr dros dro ond nid oes modd dileu llinell y Cyngor Tref nes bydd y broblem wedi'i datrys.

35.14 Blwch Trydanol y Clwb Pêl-droed – Mae contractwr wedi'i gyflogi ac fe gaiff y gwaith ei gwblhau erbyn diwedd yr wythnos.

35.6 Gwybodaeth Senotaff ynghylch y Milwr Mud wedi'i derbyn ynghyd â phrisiau. Y Clerc i fesur maint y wal a chael dyfynbris erbyn y cyfarfod nesaf. Yr amser aros ydy 20+ wythnos felly ni fydd wedi'i osod erbyn y digwyddiad coffa eleni. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Tref yn awyddus i symud ymlaen gyda hyn erbyn 2023.

35. 17 Mae'r rhestr marchnad crefftwyr wedi'i rhannu unwaith eto gyda dyddiadau hyd at ddiwedd y flwyddyn. Caiff calendr drafft ei gynhyrchu ar gyfer y cyfarfod nesaf a'i rannu gyda'r holl asiantaethau partner a thrigolion.

Rhestr Weithredu 27^{ain} o Orffennaf

Rhestr Weithredu Cyngor Tref Llanfairfechan		
Dyddiad: 27 ^{ain} o Orffennaf 2022		
Eitem:	Dyddiad:	Datblygiad
Arwyddlun a bathodynau meiri'r gorffennol	Mater newydd	I'w drafod
Maes parcio Nant y Pandy	04/07/2022	Wedi symud ymlaen at gynllunio
Maes parcio'r promenâd a chynllun amddiffyn rhag llifogydd	21/06/2022	Ar yr agenda
Difrod yn Nant y Coed	05/07/2022	Wedi derbyn diweddariad blaenorol, y gwaith yn mynd yn ei flaen
Prosiect meinciau	Ar yr agenda	Eitem 9
Prosiect Gwyllo Cyflymder	06/07/2022	Diweddariad gan y Cyngorwyr Tref
Senotaff	26/07/2022	Wedi anfon e-bost pellach
MUGA West Shore	05/07/2022	Pryderon am yr wyneb a'r byrddau pêl-fasged
Cwrt petanque	I'w fynd yn ei flaen	Aros am ateb gan Peachy
Diffibriliwr	Yn symud ymlaen	Wedi gorffen ei osod – plac ar fynd
Pwll padlo	05/07/2022	CBSC wedi cysylltu gyda'r trigolyn
Archwiliad	Wedi'i gwblhau	Wedi'i anfon ar Fehefin 28ain drwy ddanfoniad arbennig
TG GDPR a'r Swyddfa	26/07/2022	Wedi mudo'r rhif ac yn y broses o gau'r cyfrif
Hyfforddiant i'r Clerc a'r staff	05/07/2022	Ffurflen bwrsariaeth i'w chwblhau
Blwch trydanol y Clwb Pêl-droed	26/07/2022	Caiff y gwaith ei gwblhau erbyn diwedd yr wythnos
Meinciau lloches y pwll cychod		Bellach wedi'u gosod
Arhosfan Bws The Heath		Wedi ei drwsio yn brydlon
Milwr Mud	26/07/2022	Wedi derbyn e-bost
Cynllun Cymunedol Kickstarter	Ar yr agenda	Eitem 7
Marchnadoedd Bwyd a Chrefftswyr		Bydd y farchnad nesaf ar ddydd Sul 25 ^{ain} o Fedi
Llanfest Awst 6ed		Bydd gan Kirsty a Jayne stondin y Cyngor Tref yn y digwyddiad
Digwyddiad Tân Gwylt	26/07/2022	Wedi anfon e-bost, nos Lun 7 ^{fed} o Dachwedd
Digwyddiad Coffa	Ar yr agenda	Eitem 7
Gŵyl y Gaeaf a Goleuadau Nadolig	Ar yr agenda	Eitem 7

7. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo sesiynau prosiect cynllunio cymunedol pellach Kickstarter - adroddiad Roedd adroddiad wedi'i ddosbarthu a'i nodi wedi'i ddarllen. Mae dau ddiwrnod ymgynghori gyda Chymorth Cynllunio Cymru wedi digwydd hyd yma ar gyfer y prosiect hwn – dydd Mercher 8^{fed} o Fai a dydd Llun 18^{fed} o Orffennaf. Mae'r niferoedd yn yr ymgynghoriad wedi bod yn dda ac mae 8 trigolyn wedi dweud eu bod am fod yn rhan o'r Bartneriaeth Cynllunio Cymunedol. Nodwyd bod y castell neidio wedi ysbrydoli ac annog llawer mwy o bobl i fynychu. Rydym yn gobeithio bydd lansiad y bartneriaeth yn digwydd ym mis Medi. Cytunwyd y dylid cynnal sesiwn ymgynghori arall mewn digwyddiad Calan Gaeaf ym mis Hydref. Mae sesiwn ychwanegol wedi'i hawgrymu, mae pryder am y diffyg adborth o Ben Dalar. Gall hwn fod yn rhywbeth mae'r Bartneriaeth yn ei redeg gyda chymorth y Cyngor Tref. Gall fod yn rhywbeth yn y parc chwarae gyda swigod Dr Zigs. Os na fydd hyn yn gweithio, bu awgrym y gellir efallai anfon arolwg i'r cartrefi yn uniongyrchol. Gall y Cyngorwyr Tref wneud hyn neu drwy roi cytundeb allan i Dragon Directories i helpu. Rydym yn gobeithio caiff cynllun cymunedol rhagarweiniol a chynllun gweithredu Kickstarter eu lansio ar ddechrau mis Rhagfyr yn ein marchnad Gŵyl y Gaeaf ar ddydd Sul Rhagfyr yr 11^{eg} 2022. Y tîm o staff i fynd ymlaen gyda'r gwaith. Penderfynwyd derbyn a nodi
8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo calendr digwyddiadau cymunedol 2022/2023 – roedd adroddiad wedi'i gylchredeg a'i nodi wedi'i ddarllen.
1. Marchnadoedd Bwyd a Chrefftwyd – mae'r rhain wedi cael eu cynnal yn fisol ac wedi bod yn llwyddiant mawr gyda chefnogaeth dda gan gwsmeriaid a dros 30 stondin yn cadw lle a mynychu yn rheolaidd. Roedd marchnad mis Mehefin ychydig yn dawelach ac roedd y tîm o staff yn ystyried cynnig rhaglen flynyddol o 10 marchnad ar gyfer 2022/23.
Roeddem ni'n teimlo bod mis Gorffennaf/Awst yn heriol oherwydd gwyliau'r haf a marchnadoedd haf eraill. Fodd bynnag, mae'r nifer o gyflenwyr wedi gwella ar gyfer mis Gorffennaf gyda 40 stondin yn cynnwys tri chyflenwr bwyd newydd ac roedd nifer y cwsmeriaid yn gyson ar 202. Mae'r Cyngor Tref wedi penderfynu y bydd ffi o £10 y stondin o farchnadoedd Gŵyl y Gaeaf ymlaen. Bydd hyn yn helpu tuag at gostau cynnal y neuadd.
 2. Digwyddiad Coffa, digwyddiad Tân Gwylt a Gŵyl y Gaeaf – mae cynlluniau yn dechrau dod at ei gilydd ar gyfer y digwyddiadau hyn, ond bydd angen gwneud llawer o waith er mwyn cael popeth yn ei le yn iawn ar gyfer 2022. Cawsom ein beirniadu'n sylweddol y llynedd oherwydd y cynlluniau diwygiedig oherwydd y pandemig ac rydym ni eisïau sicrhau y caiff unrhyw arian gaiff ei wario ei werthfawrogi gan y trigolion yn 2022. Mae'r tîm o staff wedi dechrau casglu gwybodaeth i helpu'r Cyngor Tref gyda'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r Clerc wedi awgrymu cyfarfod cymunedol lle gall trigolion a'r Cyngor Tref benderfynu ar gynlluniau terfynol yn barod i'w cadarnhau yn ein cyfarfod ym mis Medi. Y cynnig ydy nos Lun yr 22^{ain} o Awst am 6yh. Bydd posteri yn hysbysebu'r cyfarfod ac fe gaiff trigolion eu hannog i gyfrannu a gwirfoddoli os hoffon nhw fod yn rhan o'r gwaith. Buasai ein tîm o staff yn gobeithio cael ffordd glir ymlaen ar gyfer y sesiynau sydd wedi'u nodi isod erbyn cyfarfod y Cyngor Tref ar y 1^{af} o Fedi ar yr hwyraf.
Dyddiadau arfaethedig:
 - Sioe Tân Gwylt - Nos Lun 7^{fed} o Dachwedd am 6yh. Dyma'r diwrnod mwyaf diogel ar gyfer y llanw, ac ni ddylai wrthdaro gydag unrhyw ddigwyddiadau eraill. Ni fydd unrhyw werthwyr teganau yn cael eu caniatáu ar y safle gan fod y Cyngor Tref yn deimladwy tuag at bwysau ariannol presennol trigolion ac yn dymuno i'r digwyddiad hwn fod am ddim. Y tîm o staff i gysylltu gyda'r caffis a'r Clwb Hwyllo i roi gwybod iddynt am y dyddiad arfaethedig a gofyn a hoffon nhw agor. Bydd Cymorth Cyntaf ar gael ar y noson.
 - Digwyddiad Coffa – Dydd Sul 13^{eg} o Dachwedd am 10:30yb. Rydym ni'n gobeithio dychwelyd i'n trefniadau cyn y pandemig. Bu ychydig o drafodaeth ynghylch cau Ffordd Penmaenmawr am 30 munud a chysylltu gyda chwmni diogelwch i ymgymryd â hyn. Bydd Cymorth Cyntaf ar gael yn y digwyddiad. Y Clerc i edrych i mewn i hyn ac adrodd yn ôl.
 - Gŵyl y Gaeaf – Dydd Sadwrn 10^{fed} o Ragfyr a dydd Sul 11^{eg} o Ragfyr. Rydym ni'n gobeithio gwahodd y Rotari i ddarparu groto Siôn Corn ac annog stondinau cymunedol ar gyfer y dydd Sadwrn ac yna cynnal y farchnad crefftwyd ar y dydd Sul. Penderfynwyd derbyn a nodi
9. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Prosiect Meinciau Cymunedol Cyngor Tref Llanfairfechan – roedd adroddiad wedi'i ddosbarthu a'i nodi wedi'i ddarllen. Bu ymweliad safle gyda Chyng Alun Rhys Jones, Cyng Pat Griffiths a Chlerc y Dref ar y 19^{eg} o Orffennaf 2022 i asesu'r meinciau yn waelod y dref. Roedd yr asesiad yn seiliedig ar bedwar dewis:
1. Mainc bresennol sydd ddim angen unrhyw waith

2. Mainc bresennol sydd angen ei hadnewyddu. Yr awgrym ydy bod ymholiadau cychwynnol yn cael eu hanfon at CBS Conwy gyda chais i'r gwaith hwn gael ei gwblhau gyda chynnig i dalu am y gwasanaeth os bydd angen.
3. Mainc bresennol sydd angen ei hamnewid.
4. Dylid gosod fainc newydd.

Yr awgrym ydy bod meinciau ar y ffordd fawr yn feinciau metel galfanedig. Meinciau mewn parciau chwarae yn rhai metel gyda phaent lliw. Dylai meinciau yn neu wrth y gwarchodfeydd natur fod yn bren naturiol gyda chynlluniau wedi'u hysgythru arnynt er mwyn eu gwneud yn ddiddorol i blant a theuluoedd. Y Clerc i symud ymlaen gyda'r awgrymiadau yn yr adroddiad ac adrodd yn ôl er mwyn gallu cadarnhau yng nghyfarfod y 1^{af} o Fedi.

Penderfynwyd derbyn a nodi

10. Derbyn ceisiadau grant ar gyfer Llanfest 2022

Gadawodd Cyng C. Roberts a Chyng L. Fielding yr ystafell ar ôl datgan diddordeb fel aelodau pwyllgor. Bu cadarnhad bod gan y pwyllgor digwyddiadau newydd drefn llywodraeth mewn lle. Mae CVSC wedi helpu'r grŵp i ddatblygu cyfansoddiad ac mae'r yswiriant oedd ei angen mewn lle. Cytunwyd bod modd rhoi'r grant ond gofynnwyd i'r Clerc wirio bod yr holl faterion iechyd a diogelwch a threfniadau diogelwch mewn lle.

Cynigydd Cyng N Jones Eilydd Cyng P Vangberg Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

11. Trafod e-byst Cynghorwyr Tref a thudalennau cyfryngau cymdeithasol

Cafodd y Cyngor Tref ei atgoffa bod e-byst Cyngor Tref Llanfairfechan wedi'u gosod ar gyfer pob aelod etholedig a'i bod yn well iddynt ddefnyddio'r e-byst hyn at ddibenion gwaith y Cyngor Tref. Mae modd darparu cefnogaeth TG i helpu gyda'r broses hon. Gofynnodd y Clerc am y cyfeiriadau e-byst ar ôl cwblhau'r broses fel bod modd diweddarau'r wybodaeth. Mae'r tudalennau cyfryngau cymdeithasol yn gweithio'n effeithiol, ac mae'r pwyllgor cyfryngau cymdeithasol yn hapus i barhau i lunio'r cynnwys ar eu cyfer.

Penderfynwyd derbyn a nodi

12. Derbyn a chymeradwyo taliadau presennol ar gyfer mis Gorffennaf a mis Awst 2022

1. Menter Iaith i'w gadarnhau yn y cyfarfod
2. Sgipiau Cymunedol CBS Conwy Ffordd yr Orsaf £288.00
3. Ffi Gwaith Cynnal a Chadw Arhosfan Bws CBS Conwy £1000.00 2022/2023
4. Lwfansau'r Cynghorwyr Tref 2022/2023 £150.00 x 13
5. Trwydded Farchnad Tens mis Gorffennaf Kirsty Merrell Daily £21.00 - nid yw hwn yn ofynnol gan ei fod wedi'i dalu ar ôl y cyfarfod diwethaf
6. Adnewyddu aelodaeth SLCC £215.00
7. Yswiriant Zurich 2022/23 (Taliad ôl-ddyddiedig) £1290.78
8. Castell Neidio Brighthouse Leisure (Taliad ôl-ddyddiedig) £115.00
9. Cacennau caffi Riverside (Taliad ôl-ddyddiedig) £81.00

Cynigydd Cyng C Roberts Eilydd Cyng P Vangberg Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

13. Trafod materion cynllunio

- 0/49837 Gelli Aur 3 Garth Wen Llanfairfechan LL33 0BB - nid oedd unrhyw sylwadau
- 0/49812 Plot 64 Cae America Llanfairfechan LL33 0SQ - bu i'r cynghorwyr drafod y tirlunio - nid oedd unrhyw sylwadau
- 0/49807 Bridge House Ffordd Penmaenmawr Llanfairfechan LL33 0RJ - Gadawodd Cyng Nia Jones yr ystafell gan fod ganddi ddiddordeb personol yn yr eitem. Nid oedd unrhyw sylwadau.
- 0/49796 Flat Llawr Gwaelod Rhif 7 Ffordd yr Orsaf Llanfairfechan LL33 0AL - Roedd Cyng Nia Jones eisoes wedi gadael yr ystafell ond cytunwyd nad oedd angen i'r Maer Chris Jones adael yr ystafell ar gyfer yr eitem hon. Nid oedd unrhyw sylwadau.

14. Derbyn gohebiaeth

1. Hoffai Capel Zinc ganiatâd i gynnal gwasanaeth yn yr awyr agored naill ai ar y Prom neu yng Ngerddi Fictoria. Mae'r Harbwrfeister eisoes wedi cytuno ar gyfer y promenâd. Cytunwyd hyn ar gyfer Gerddi Fictoria hefyd.
2. E-bost gan drigolyn yn nodi pryderon ynghylch diogelwch wrth fynediad y Co-op. Mae'r henoed yn ei chael hi'n anodd croesi yno gan ei bod yn lle prysur gyda llawer o draffig o bob cyfeiriad. Cais bod y Cyngor Tref yn

ystyried rhoi croesfan yno. Y Clerc i anfon e-bost at CBS Conwy i drafod y mater a'i ychwanegu at y Rhestr Weithredu i'w drafod ymhellach.

15. E-bost gan drigolyn ynghylch blychau adar ar adeiladau cyhoeddus. Nodwyd bod prosiect i ymgymryd â'r gwaith hwn ar y funud. Y Clerc i anfon e-bost at stadau CBS Conwy am ganiatâd ac i gysylltu gyda'r swyddog prosiect. Y Clerc i ofyn a oes modd estyn y prosiect i gynnwys cartrefi gan fod problemau gyda'u gosod a'r angen am beiriant arbennig i gludo pobl i fyny i wneud hyn.

Penderfynwyd derbyn a nodi

16. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

Cyng Laura Fielding a Cyng Christine Roberts – Pwyllgor Digwyddiadau Llanfairfechan

Bu'r holl drafodaethau am Llanfest gaiff ei gynnal ar Awst y 6^{ed}. Yr holl gynlluniau yn mynd ymlaen, a bydd gan y Cyngor Tref stondin gweithgareddau plant yn y digwyddiad yn rhoi tatŵs dros dro am ddim a chynnal gweithgaredd lliwio mandala. Byddwn ni hefyd yn hysbysebu Cystadleuaeth Gelf Cynllunio Cymunedol.

Cyng Alun Rhys Jones – Gwibdaith Partneriaeth y Carneddau

Cafodd cyflwyniadau a gwybodaeth eu rhannu yn y digwyddiad. Roedd hi'n ddiddorol gweld y gwaith sydd wedi'i gwblhau hyd yma ac yn gyfle i gyfarfod â'r gweithwyr prosiect fydd ynghlwm â phrosiect dehongli Glan y Môr Elias.

Cyng Preben Vangberg – Prosiect Gefeillio Trefi ac ysgolion

Mae llawer o ddiddordeb gan yr ysgolion o Pleumeleuc a Llanfairfechan mewn cymryd rhan mewn prosiect cyfaill gohebol a chymryd mwy o ran yn y prosiect Gefeillio Trefi. Cytunwyd y buasai hyn yn gadarnhaol iawn a bu trafodaethau ar sut mae modd cyflawni hyn. Bydd gwaith cynllunio pellach yn digwydd mewn paratoad ar gyfer yr ymwelwyr o Pleumeleuc ym mis Mai 2023.

17. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys

1. Tydy bws rhif 75 ond yn mynd i fyny Mill Road ar gais sydd ddim yn gweithio os ydych chi'n gobeithio dal y bws yno. Cynghorydd i gysylltu gyda Llew Jones i roi gwybod am hyn a gofyn i'w newid.
2. Mae defaid wedi bod yn mynd i mewn i fynwent Rhandir Hedd – y Clerc i gysylltu gyda swyddog y fynwent i roi gwybod am hyn.
3. Mae trigolion Pen Dalar wedi adnabod ardal sy'n tyfu ym Mhen Dalar a allai gael ei ailddatblygu fel ardal Bwyd Bendigedig (Incredible Edibles) posibl. Y Clerc a Chynghorydd i drafod hyn ymhellach ac adrodd yn ôl.
4. Toiledau cyhoeddus - oes modd i'r postmyn dorri goriad arall fel bod gan bob postmon yn Llanfairfechan fynediad 24/7 i'r toiledau ar Ffordd yr Orsaf? Cytunwyd ar hyn.
5. Mae'r cyn-gynghorydd Carol Gell yn parhau i edrych ar ôl y cwch wrth y groesffordd a'r dalwyr planhigion ar y prom. Diolchwyd iddi am hyn gan ei fod o help mawr.
6. Adroddwyd nad ydy'r goriad radar yn nhoiledau Ffordd yr Orsaf yn gweithio. Y Clerc i wirio'r sefyllfa.
7. Mae cwyn wedi dod gan drigolyn ynglŷn â'r sbwriel ym maes parcio'r Co-op. Mae'r Clerc hefyd wedi derbyn galwad ffôn ynghylch hyn. Roedd y trigolyn yn meddwl bod y Gweithiwr Amgylcheddol wedi cael y dasg o dacluso'r ardal. Nid ydy hyn yn wir, ac mae wedi cadarnhau nad ydy o'n clirio sbwriel yn yr ardal yna gan ei fod yn eiddo preifat. Y Clerc i anfon e-bost at y Co-op yn gofyn iddynt fynd i'r afael â'r broblem.

Penderfynwyd derbyn a nodi

Daeth y cyfarfod i ben am 9:39pm

Nid ydy'r Cyngor Tref yn cyfarfod ym mis Awst ac felly bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fercher y 1^{af} o Fedi am 7yh